# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 6

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHLANT SY'N CAEL EU LLETYA

*Plant sy'n cael eu lletya mewn sefydliadau penodol*

### 121 Asesu plant sy'n cael eu lletya mewn cartrefi gofal neu ysbytai annibynnol

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo llety'n cael ei ddarparu i blentyn yng Nghymru mewn unrhyw gartref gofal neu ysbyty annibynnol—

(a) am gyfnod olynol o dri mis o leiaf, neu

(b) gyda'r bwriad, ar ran y person sy'n gwneud y penderfyniad i letya'r plentyn, o letya'r plentyn am y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r person sy'n rhedeg y sefydliad o dan sylw hysbysu swyddog priodol yr awdurdod lleol y mae'r sefydliad yn cael ei redeg yn ei ardal—

(a) ei fod yn lletya'r plentyn, a

(b) pan fo'n rhoi'r gorau i letya'r plentyn.

(3) Pan fo swyddog priodol awdurdod lleol wedi ei hysbysu o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod—

(a) asesu'r plentyn o dan adran 21, a

(b) ystyried i ba raddau (os o gwbl) y dylai arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf hon, neu unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 1989, mewn cysylltiad â'r plentyn.

(4) Nid yw'r ddyletswydd o dan is-adran (3)(a) yn gymwys mewn perthynas â phlentyn sy'n derbyn gofal gan—

(a) awdurdod lleol,

(b) awdurdod lleol yn Lloegr,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 121 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(c) awdurdod lleol yn yr Alban, neu
(d) ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

(5) Os yw person sy'n rhedeg cartref gofal neu ysbyty annibynnol yn methu, heb reswm resymol, â chydymffurfio â'r adran hon, bydd yn euog o drosedd.

(6) Caiff person sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod lleol gael mynediad i gartref gofal neu ysbyty annibynnol o fewn ardal yr awdurdod at ddiben pennu a ydynt wedi cydymffurfio â gofynion yr adran hon.

(7) Rhaid i berson sy'n arfer pŵer mynediad, os gofynnir iddo wneud hynny, ddangos dogfen wedi ei dilysu'n briodol sy'n dangos bod ganddo awdurdodiad i wneud hynny.

(8) Mae unrhyw berson sy'n fwriadol yn rhwystro person sy'n arfer pŵer mynediad yn euog o drosedd.

(9) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn atebol ar gollfarn diannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 121 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 121 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 121 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))